

**BWRDD CYFIAWNDER
TROSEDDOL CYMRU:
ADRODDIAD BLYNYDDOL
2021-2022**



Cyfiawnder
Troseddol
yng Nghymru

**Criminal
Justice
in Wales**

Rhagair



Yn 2020 amlinellodd Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru ei weledigaeth am system deg, effeithiol ac effeithlon o fewn ein datganiad cyhoeddusig o ddiben¹.

Mae'r adroddiad hwn yn dangos yr ynni a'r ymrwymiad gan bartneriaid Cyfiawnder Troseddol drwy Gymru i gydweithio er mwyn cyflawni'r weledigaeth honno.

Fel Cadeirydd y Bwrdd, mae'n bleser gennyf allu darparu rhywfaint o fewnwelediad i'r gwaith y mae'r Bwrdd wedi bod yn ei wneud. Drwy gydweithio, mae ein ffocws wedi bod ar leihau troseddau a gwneud cymunedau yn fwy diogel drwy geisio am well canlyniadau a phrofiadau ar gyfer y rhai hynny sy'n dod i gysylltiad â'r System Gyfiawnder Troseddol yng Nghymru p'un ai fel dioddefwyr, tystion neu droseddwyr.

Ni allwn ni drafod yr hyn a gyflawnwyd y llynedd heb gydnabod, tra ein bod yn ceisio cyflawni newid, ein bod ar yr un pryd yn ymdrin â COVID-19 a'r cymhlethdodau, yr heriau a'r cyfyngiadau yr oedd yn eu gosod arnom ym mhob agwedd o'n bywydau, gan gynnwys y system gyfiawnder troseddol.

Fodd bynnag, mae ein hymateb cydweithredol i COVID-19 yng Nghymru wedi dangos cryfder y bartneriaeth sy'n gweithio yng Nghymru a'r hyn y gallwn ni ei gyflawni pan ydym yn gweithio gyda'n gilydd ar anawsterau a rennir.

Tra ein bod yn dymuno rhannu'r hyn yr ydym wedi'i gyflawni, mae'r adroddiad hefyd yn amlinellu ein huchelgeisiau wrth inni geisio gwneud mwy yn ystod 2022-23.

Mae'r hyn a gyflawnwyd yn 2021 drwy Gymru ac yn lleol, yn rhoi sylfaen gref i ni adeiladu arni, gan fireinio ein ffocws er mwyn sicrhau bod ein hymdrechion ar y cyd yn y lleoedd cywir yn cael yr effaith a'r gwahaniaeth mwyaf i brofiad byw'r rhai hynny a ddaeth i gysylltiad â'r system gyfiawnder yng Nghymru.

Amy Rees

Cadeirydd Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru


Cyfarwyddwr Cyffredinol Prawf, Cymru a Phobl Ifanc yn Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM

Cyflwyniad

Mae Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru yn dod â phartneriaid cyfiawnder troseddol at ei gilydd, gan gynnwys Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (HMPPS), Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi (HMCTS), y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid, Gwasanaethau Heddlu yng Nghymru, Prif Gwnstabiaild yng Nghymru a Chomisïynwyr Heddlu a Throseddau yng Nghymru, Gwasanaeth Erlyn y Goron, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, cyrff y Sector Gwirfoddol a'r Comisiynydd Dioddefwyr.

Diben ein gwaith yw lleihau troseddau a gwneud cymunedau yn fwy diogel drwy gyflawni gwell canlyniadau a phrofiadau ar gyfer y rhai hynny sy'n dod i gysylltiad â'r System Gyfiawnder Troseddol yng Nghymru p'un ai fel dioddefwyr, tystion neu droseddwyr.

Drwy ymgynghori â'r holl Fyrddau Cyfiawnder Trosedd Lleol, cytunwyd ar raglen waith ar gyfer 2021-22, sy'n cynnwys pedwar o flaenoriaethau trosfwaol bras, gyda ffrydiau gwaith sy'n canolbwyntio ar faterion fel yr amlinellir isod:



Er nad yw'r rhain yn faterion newydd, mae'r rhaglen waith, ynghyd â datblygu strwythur gyflwyno a llywodraethu cadarn, wedi creu'r amgylchedd ar gyfer cyd-drefnu effeithiol a chysondeb cyflawni er mwyn cefnogi ein nod o leihau trosedd a chreu cymunedau mwy diogel.

Mae'r adroddiad hwn yn darparu crynodeb o'r hyn a gyflawnwyd y llynedd ar gyfer pob un o'r pedair blaenoriaeth.

Yr hyn a gyflawnwyd gennym yn 2021-22

Bodloni anghenion Dioddefwyr a Thystion

- **Mesur cydymffurfiaeth â'r cod:**
Daeth y Cod Ymarfer newydd i Ddioddefwyr i rym ym mis Ebrill 2021. Cymru oedd yn arwain wrth ddatblygu a gweithredu cyfres o fetrigau perfformiad i helpu partneriaid yr Heddlu a Chyfiawnder Troseddol dystio a monitro sut roedden nhw'n cydymffurfio â'r Cod ac yn cwrdd ag anghenion y dioddefwyr. Mae hyn wedi darparu gwybodaeth ar gyfer datblygu fframwaith perfformiad y Weinyddiaeth Gyfiawnder sydd i'w weithredu yng ngwanwyn/haf 2022.
- **Wedi gweithredu model newydd sy'n gwirio profiad 'system gyfan' y dioddefwyr:**
Er mwyn ategu'r fframwaith perfformiad, gwnaeth dau ranbarth yng Nghymru redeg cynllun peilot o fodel sicrwydd ansawdd sy'n dod â phartneriaid ynghyd yn rheolaidd i wirio a phrofi profiadau dioddefwyr trosedd ar bob pwynt ar draws y system gyfiawnder troseddol. Mae llwyddiant y cynllun peilot wedi golygu bod pob rhanbarth yng Nghymru wedi mabwysiadu'r model. Bydd y model hwn yn golygu y bydd sefydliadau'r Heddlu a chyfiawnder troseddol drwy Gymru yn gallu deall yn gyflymach beth sy'n gweithio'n dda i ddioddefwyr a lle mae angen gwneud newidiadau, gydag atebion yn cael eu gweithredu yn gyflym.
- **Rhedeg cynllun peilot ar gyfer cynghorwyr mesurau arbennig:**
Defnyddiodd Heddlu De Cymru gynghorwyr mesurau arbennig, sydd yn adnodd pwrpasol er mwyn cynyddu'r nifer o ddioddefwyr bregus sy'n cael budd o fesurau arbennig a chynyddu'r nifer sy'n gwneud datganiadau ynglŷn â'r effaith ar ddioddefwyr. Darparwyd cyllid gan Lywodraeth y DU er mwyn profi'r dull hwn ar draws sawl llu yng Nghymru a Lloegr. Yn unol â'r cynllun peilot ehangach, mae lluoedd yng Nghymru yn anelu at ymwreiddio cynghorwyr mesurau arbennig drwy Gymru er mwyn profi'r gallu i dyfu yn unol â'r anghenion a buddion dull cydweithredol.
- **Trawsnewid yr ymateb i drais a throseddau rhywiol yng Nghymru:**
Mae gwaith wedi cael ei wneud yn gyflym drwy Gymru, ac yn anad dim drwy'r cynlluniau gweithredu rhanbarthol sydd ar y cychwyn wedi blaenoriaethu cynyddu ceisiadau cyngor cynnar a mesurau arbennig. Yn ychwanegol at hynny, mae GEG yng Nghymru a Heddlu De Cymru yn un o pump rhanbarth yng Nghymru a Lloegr i redeg cynllun peilot newydd, sef model gweithredu ar sail tystiolaeth sy'n anelu at drawsnewid yr ymateb i ddioddefwyr a goroeswyr throseddau trais a throseddau rhywiol.
- **Cynyddu cydgysylltedd a chraffu yng Nghymru:**
Mae ffocws y Bwrdd ar droseddau trais a throseddau rhywiol wedi arwain at weithio'n agosach drwy Gymru ar y flaenoriaeth drawsbynciol hon, a gyflawnwyd drwy sefydlu grŵp Trais a Throseddau Rhywiol Strategol dros Gymru gyfan sy'n:
 - Rhannu cynlluniau gweithredu a thrafod beth sy'n 'gweithio' a gwneud gwahaniaeth
 - Gweithredu set ddata ar gyfer Cymru, yn unol â cherdyn sgôr trais, a diogelu adnodd dadansoddol i dystio lle a sut mae cynnydd yn cael ei wneud, yn ogystal â darganfod lle mae angen mwy o ffocws er mwyn gwella canlyniadau.
- **Wedi gweithredu Cyfleusterau Cyswllt Fideo Byw a Diogel ar gyfer dioddefwyr cam-drin domestig a thrais rhywiol:** Mae cyfarpar wedi cael ei osod mewn tair ar

ddeg o swyddfeydd cam-drin domestig a thrais rhywiol drwy Gymru. Mae'r cynllun arloesol hwn yn galluogi dioddefwyr i roi eu tystiolaeth yn ddiogel mewn trafodion llys. Yn bwysig, mae'r darpariaethau hyn hefyd ar gael i ddioddefwyr cam-drin domestig a cham-drin rhywiol sy'n mynd drwy'r llys teulu.

- **Ymgyrch codi ymwybyddiaeth ar gyfer staff a'r cyhoedd:** Darparwyd cyfres o adnoddau ar gyfer staff er mwyn eu hatgoffa nhw o fuddion mesurau arbennig er mwyn helpu dioddefwyr a thystion roi'r dystiolaeth orau. Roedd yr ymgyrch gyhoeddus yn bellgyrhaeddol ac roedd yn cynnwys tri maes allweddol: darllediad ar deledu ITV; ymgyrch eang ar y cyfryngau cymdeithasol drwy Gymru a oedd yn anelu at gyrraedd goroeswyr a dioddefwyr cam-drin domestig a cham-drin rhywiol gydag animeiddiad byr. Ac yn olaf, darllediad o hysbyseb ar y radio drwy Gymru a oedd yn targedu'r rhai hynny sydd â phrofiad o gam-drin domestig neu drais rhywiol a gyrrhaeddodd 1.9 miliwn o bobl yng Nghymru.

Dull un gwasanaeth cyhoeddus er mwyn hyrwyddo Cydraddoldeb Hiliol yng Nghymru.

- **Dull un Gwasanaeth Cyhoeddus:** Gwyddom fod effaith hiliaeth yn treiddio ar draws pob sector o'r gymdeithas ac nid yn unig o fewn lleoliadau a systemau cyfiawnder troseddol. Felly, mae partneriaid cyfiawnder troseddol yng Nghymru wedi gweithio gyda Llywodraeth Cymru wrth iddyn nhw ddatblygu eu cynllun Gwrth-Hiliaeth er mwyn sicrhau bod y cynlluniau yn gweithio gyda'i gilydd, ac y byddan nhw'n arwain at bobl o gymunedau lleiafrifoedd ethnig yn teimlo bod gwir newid wedi digwydd ar draws pob rhan o'u bywydau.
- **Cyd-gynhyrchu Cynllun Gwrth-hiliol Cyfiawnder Troseddol i Gymru:** Ymrwymodd y Bwrdd i ddatblygu Cynllun Gwrth-Hiliaeth Cyfiawnder Troseddol yn ystod 2020 sy'n cael ei sbarduno a'i lunio gan leisiau a phrofiadau amrywiol ymysg pobl o leiafrifoedd ethnig yng Nghymru. Er mwyn cyflawni'r ymrwymiad hwn, cynhaliwyd cyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu ac ymgynghoriadau a arweiniwyd gan y gymuned, yn ogystal â gweithio i ddatblygu'r cynllun ar yr un pryd mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru ac arbenigwyr comisiynu, academyddion ac arbenigwyr o'r trydydd sector ym maes cydraddoldeb hiliol a chyfiawnder troseddol i ddatblygu'r cynllun. Bydd y dull cyd-gysylltiedig hwn, a arweinir gan y gymuned yn sicrhau na fydd pobl o gymunedau lleiafrifoedd ethnig yn dioddef gwahaniaethu nac o dan anfantais mewn unrhyw agwedd o'u bywydau na gwasanaethau cyhoeddus y maen nhw'n eu defnyddio. Bydd cynllun Llywodraeth Cymru yn cael ei lansio ym Mehefin a bydd ein cynllun Cyfiawnder Troseddol yn cael ei lansio ar yr 8^{fed} o Fedi 2022.

Sefydlu Panel Goruchwylio a Chynghori Annibynnol ar Gydraddoldeb Hiliol dros Gymru:

- Mae cymunedau wedi datgan yn groyw bod ymddiriedaeth, atebolrwydd, tryloywder a chyfathrebu yn graidd i gyflawni gwir wahaniaeth sylweddol at brofiad y gymuned o leiafrifoedd ethnig. Mewn ymateb, cytunodd y Bwrdd i sefydlu Panel Goruchwylio a Chynghori Annibynnol ar Gydraddoldeb Hiliol dros Gymru. Bydd y Panel yn gweithio gyda Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru er mwyn helpu ymdrin â gwahaniaethu systemig a'r anfantaision a all fod wedi'u profi gan bobl Dduon

a Lleiafrifoedd Ethnig yn y system gyfiawnder troseddol. Bydd yn darparu her, cyngor a goruchwyliaeth annibynnol ynglŷn â gwrth-hiliaeth ar gyfer Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru.

Comisiynodd y Bwrdd y Tîm Cefnogi Lleiafrifoedd Ethnig ac leuenctid i arwain ar y broses recriwtio ar gyfer cadeirydd y panel a deuddeg o aelodau'r panel. Bydd y panel yn cynnwys pobl o gefndiroedd amrywiol, gydag amrediad o arbenigedd a phrofiadau byw o'r system gyfiawnder troseddol ac anghyfiawnder hiliol drwy Gymru.

- **Datblygu dangosfwrdd perfformiad O Ben i Ben:** Mae'n hanfodol casglu data manwl gywir er mwyn olrhain newid a darparu tystiolaeth ar gyfer meysydd ffocws yn y dyfodol. Mae set ddata wedi cael ei chasglu er mwyn deall cynrychiolaeth ac anghyfartaledd y gweithlu neu sydd wedi cael ei drin ym mhob pwynt cyswllt o'r system gyfiawnder troseddol yng Nghymru. Y camau nesaf yn 2022 fydd trawsnewid y data yn ddangosfwrdd, gan wneud y wybodaeth yn haws i'w deall, monitro cynnydd i wella tegwch a chynrychiolaeth yn y system gyfiawnder troseddol.
- **Wedi datblygu fframwaith addysg a chynrychiolaeth o'r safon ofynnol:** Mae hwn mewn dwy ran allweddol. Mae'r rhan gyntaf yn canolbwyntio ar ddarparu sefydliadau Heddlu a Chyfiawnder Troseddol gyda chanllawiau at amrediad o ddeunydd hyfforddiant ac addysg sy'n seiliedig ar dystiolaeth a ellir ei gynnig i weithwyr ar draws y gweithlu er mwyn sicrhau bod gan y sefydliad y sgiliau a'r wybodaeth gywir yn y lle cywir i greu sefydliad cymwys a hyderus yn ddiwylliannol. Mae'r ail ran yn anelu at ddarparu canllawiau ar gyfer 'beth sy'n gweithio' er mwyn datblygu a chynnal gweithlu cynrychiadol mewn modd gweladwy, gyda'r nod o gynyddu'r nifer o arweinwyr o leiafrifoedd ethnig ym mhroffesiwn yr Heddlu, y Gwasanaeth Prawf, Cyfiawnder leuenctid a'r proffesiwn cyfreithiol.

Ymyrraeth ac Atal Cynnar

- **Mapio'r hyn sy'n 'gweithio er mwyn ymdrin â sbardunwyr ymddygiad troseddol':** Nid oes 'un ateb' i'r cwestiwn cymhleth yma, ac fel y cyfryw, ceir llawer o ymyriadau sy'n cael eu harwain gan unigolion, sefydliadau a phartneriaethau er mwyn ymdrin ag achosion sylfaenol ac atal troseddu ac aildroseddu. Roedd yn bwysig bod y Bwrdd yn adolygu'r dirwedd a 'beth sy'n gweithio' cyn cytuno gwneud unrhyw waith pellach gyda hyn. Gan dynnu ar arbenigedd o Uned Atal Trais Cymru, cynhaliwyd ymarfer mapio, a dadansoddiad o brosiectau, rhaglenni a mentrau er mwyn darparu'r Bwrdd gyda'r sail tystiolaeth, ac arwydd o brosiectau sy'n dangos addewid, a lle y byddai cwmplas i olrhain y buddion. Roedd y gwaith hwn wedyn yn ategu'r cam nesaf o nodi lle'r oedd bylchau yn y maes hwn a beth all y Bwrdd ei wneud i gefnogi datblygiad pellach.
- **Diffiniad Atal a Strategaeth Atal ar gyfer Cymru:** Roedd y canfyddiadau o'r ymarfer mapio yn atgyfnerthu'r angen a oedd eisoes wedi'i nodi gan y Bwrdd drwy werthuso'r Rhaglen Camau Cynnar gyda'n Gilydd, ac y mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo iddi ym Mwrdd Partneriaeth Plismona Cymru, ar gyfer dull trawslywodraethol Cymru gyfan tuag at atal trosedd a

niwed cysylltiedig. Mae lechyd Cyhoeddus Cymru a phartneriaid Cyfiawnder Troseddol yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru i symud yr ymrwymiad hwn ymlaen.

- **Ffocws ar anaf a gafwyd i'r ymennydd:** Mae ymchwil wedi dangos yr angen i ddeall yn well amlygrwydd ac effaith anaf a gafwyd i'r ymennydd o fewn y system gyfiawnder troseddol a nodi'r cyfleoedd ar gyfer ymyriadau a dulliau ataliol sylfaenol. Mae'r Bwrdd yn blaenoriaethu'r gwaith hwn yng nghydestun Cymru yn ystod y flwyddyn nesaf.
- **Atal Trais yn erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV):** Lanswyd yr ymgyrch #diogeliddweud² er mwyn codi ymwybyddiaeth o rym gwylwyr gwrywaidd wrth atal aflonyddu rhywiol. Yn ogystal, mae pecyn cymorth, adnoddau ac ymgyrchoedd pellach yn cael eu datblygu i gefnogi'r neges hon. Mae'r Bwrdd yn sicr bod atal VAWDASV yn ganolog er mwyn atal pob math o drais yn erbyn merched, cam-drin domestig a cham-drin rhywiol. Felly, bydd atal ac ymyrraeth gynnar yn faes craidd yn y rhaglen glasbrint VAWDASV rhwng partneriaid cyfiawnder troseddol a Llywodraeth Cymru.

Pobl sydd wedi Troseddu

- **Llwyddiant y 'Fframwaith i gefnogi newid positif ar gyfer y rhai hynny sydd mewn risg o aildroseddu' yng Nghymru³:** Yn 2018, goruchwyliodd y Bwrdd weithredu a chyhoeddi'r fframwaith a nododd chwech o grwpiau bregus penodol sydd wedi troseddu neu sydd mewn risg o droseddu i arwain bywydau mwy cadarnhaol. Roedd hyn yn cynnwys:

<p>Violence Against Women, Domestic Abuse & Sexual Violence (VAWDASV)</p> <ul style="list-style-type: none"> • Clear understanding of risk and need • Provision of services aiming to prevent VAWDASV • Shared understanding of 'what works' 	<p>Women in the Criminal Justice System</p> <ul style="list-style-type: none"> • Reduce level of complexity • Reduce demand on upstream services • Better understand the distinct needs and vulnerabilities • Ensure mechanisms are in place <p><i>(Framework objectives have now been absorbed into and superseded by the Female Offending Blueprint change programme.)</i></p>
<p>Ex-Armed Service Personnel</p> <ul style="list-style-type: none"> • Improve identification and recording • Improve understanding of needs and experiences • Prevent ex-ASP transitioning out of the armed services from coming into contact with the CJS 	<p>Black Asian & Minority Ethnic Groups</p> <ul style="list-style-type: none"> • Fully subsumed into C.JiW Wales Race Equality Priority • Work achieved within IOM workstream has fed into the current work around the wider whole system C.JiW Race Equality delivery Plan • Will be reported separately into C.JiW directly
<p>Offender's Families</p> <ul style="list-style-type: none"> • Evaluate the impact, provision and support services offered to families; • Working in partnership to ensure children and young people of offenders are identified at arrest, at sentencing and on imprisonment 	<p>Young Adults and Care Leavers</p> <ul style="list-style-type: none"> • research and analysis of our shared data • improving identification & recording • ensuring the opportunity to safely share experiences of being in care

Mae'r fframwaith wedi bod yn rhedeg ers pedair blynedd ac mae wedi cyflawni newidiadau sylweddol, a rhestrir rhai ohonyn nhw isod:

³ [fframwaith-i-gefnogi-newid-positif-ar-gyfer-y-rheini-sydd-mewn-risg-o-droseddu.pdf \(llyw.cymru\)](#)

o **Gweithredu Glasbrint ar gyfer Troseddu gan Ferched sy'n canolbwyntio ar sut mae'r system gyfan yn gallu cefnogi merched o fewn y system gyfiawnder neu'r rhai hynny sydd mewn risg o ddod yn rhan o'r system.**

Mae'r rhaglen wedi:

- ❖ cynnwys merched sydd â phrofiad byw i ddatblygu'r rhaglen.
 - ❖ sicrhau cyllid er mwyn sefydlu'r Gwasanaeth Ymweld â Mam gan Heddlu a Chymunedau gyda'i Gilydd yn CEM Eastwood Park a CEM Styal.
 - ❖ gweithredu model sydd wedi'i arwain gan seicoleg ac sy'n seiliedig ar rywedd a thrawma.
 - ❖ ymwreiddio pecyn hyfforddiant amlasiantaeth ar gyfer ymarferwyr ac sy'n seiliedig ar rywedd.
 - ❖ cynnal digwyddiadau ymgysylltu ar gyfer Dedfrydwyr er mwyn deall budd dedfryd yn y gymuned o'i chymharu â charcharu ar gyfer merched.
 - ❖ cwblhau ymchwil i ddeall sut i gefnogi a chwrdd ag anghenion Merched o leiafrifoedd ethnig o fewn y System gyfiawnder Troseddol yng Nghymru.
- o Mae'r ffrwd waith **gofalwyr ifanc ac oedolion** wedi;
- ❖ Gweithredu 'Protocol Pontio' ar gyfer oedolion ifanc sy'n trosglwyddo o wasanaethau cyfiawnder troseddol ieuencid at wasanaethau oedolion drwy Gymru
 - ❖ Cyflwyno cyfarfodydd briffio i staff mewn carchardai yng Nghymru ac wedi cyflwyno hyfforddiant ar gyfer gweithwyr allweddol
 - ❖ Sefydlu cysylltiadau gwell rhwng arweinwyr gadael gofal a phartneriaid cyfiawnder troseddol
 - ❖ Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddarparu gwybodaeth ar gyfer protocol cenedlaethol ynglŷn â lleihau troseddoli pobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal
 - ❖ Cyflwyno'r offeryn sgrinio aeddfedrwydd a 'Dewisiadau a Newidiadau' mewn carchardai a'r Gwasanaeth Prawf yng Nghymru
 - ❖ Nodi Eiriolwyr ar gyfer Pobl sy'n Gadael Gofal drwy'r gwasanaethau Carchardai a Phrawf
 - ❖ Cyflwyno gwasanaeth adsefydlu newydd ar gyfer oedolion ifanc, sy'n cynnwys gwasanaeth mentora trwy'r giât yn ogystal â darpariaeth yn y gymuned.

Things that can therefore improve outcomes for ex-ASP in custody and under community supervision are:



❖ **Cyn-aelodau'r lluoedd arfog:** Mae system ddata yn golygu bod y gwasanaeth prawf yn gallu cipio anghenion cyn-aelodau'r lluoedd arfog a theilwra cefnogaeth a gynigir iddyn nhw er mwyn lleihau aildroseddu. Ymgysylltwyd ag Eiriolwyr y Gwasanaeth Prawf, yr heddlu a charchardai am yr adnoddau perthnasol diweddaraf.

❖ Ymgyrch gyfathrebu yn ystod wythnos y Lluoedd Arfog, gan gynnwys ymgyrch ar gyfer coffâd, ymgyrch yn ystod wythnos ymwybyddiaeth iechyd meddwl a oedd yn cynnwys cynhyrchu cyfarwyddiadur iechyd meddwl.

❖ Ymgysylltwyd â phedwar o Gomisiynwyr Heddlu a Throsedd i arwyddo'r cyfamod. Mae hwn yn addewid gan

y wlad i sicrhau bod y rhai hynny sy'n gwasanaethu neu a fu'n gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog, a'u teuluoedd, yn cael eu trin gyda thegwch a pharch yn y cymunedau, yr economi a'r gymdeithas. Hefyd, sicrhau nad ydyn nhw'n cael eu rhoi dan anfantais wrth dderbyn gwasanaethau preifat a chyhoeddus, gan gynnwys yn y System gyfiawnder Troseddol.

- ❖ Presenoldeb mewn fforymau rhanbarthol y lluoedd arfog er mwyn darparu gwybodaeth ar gyfer Eiriolwyr y Gwasanaeth Prawf a Swyddog Cymorth Cyn-filwyr yn y Ddalfa (SCCDd).

lechyd Meddwl Pobl sy'n Gadael Carchardai. Mewn cydweithrediad â Llamau a Chymru Ddiogelach, roedd cais HMPPS drwy Gronfa Arweinyddiaeth ac Arloesi Lleol y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn llwyddiannus ac maen nhw wedi derbyn cyllid ar gyfer eu prosiect 'cefnogi'r system gyfan ar gyfer pobl ifanc 18-25 oed' sy'n gadael carchar. Bydd Llamau yn darparu cymorth holistaidd, system gyfan sy'n seiliedig ar leoliad ar gyfer pobl ifanc 18-25 oed sy'n gadael carchar. Dengys tystiolaeth yn eglur fod cael llety anaddas neu fod yn ddigartref yn cynyddu'r tebygolrwydd o aildroseddu. Drwy sicrhau bod pobl ifanc yn cael mynediad at lety priodol a chefnogaeth gofleidiol hygyrch ac amserol, byddan nhw'n sicrhau bod eu canlyniadau bywyd unigol yn well, ond hefyd bydd canlyniadau gwell ar gyfer cymunedau, a sefydliadau unigol drwy leihau aildroseddu a gwell ymgysylltiad.

Ein huchelgais ar gyfer 2022-23

Dysgodd y Bwrdd lawer o wersi yn ystod 2021-22 drwy gyflawni'r rhaglen waith fel ag a amlinellwyd uchod.

Amlinellir tri o bwntiau dysgu allweddol isod ac maen nhw wedi llunio rhaglen waith 2022-23;

- Cynnwys metrigau a mesurau diffiniedig: Bydd rhaglen waith Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru a chynlluniau'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol wedi hynny yn cynnwys metrigau a, lle y bo'n bosibl, data ansoddol, sy'n defnyddio yn benodol y mewnwelediadau y mae'r cardiau sgorio cenedlaethol yn eu darparu er mwyn darparu gwybodaeth a gwella ymarfer, polisi a bwriadau comisiynu.
- Cryfhau'r BCTLI: Sicrhau bod gan y byrddau lleol y cyfarpar i gyflwyno'r rhaglen genedlaethol a'r blaenoriaethau lleol.
- Canolbwyntio ar gysoni'r bartneriaeth ynghlŷn â'n materion trawsbynciol: Bydd cysoni yn digwydd ar lefel genedlaethol a lleol er mwyn gwella cysylltedd ac ymwybyddiaeth o'r heriau trawsbynciol a ellir eu datrys gyda'i gilydd.

Dangosir crynodeb isod o raglen waith Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru ar gyfer 2022-23.



Cyfiawnder
Troseddol
yng Nghymru
**Criminal
Justice
in Wales**